Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Negeseuon Allweddol
o'r
Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 24
Tachwedd 2022

Derbyniodd a thrafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf / adroddiadau canlynol:

- Fframwaith Safonau Hyfforddi Cenedlaethol. Datblygwyd y safonau oherwydd nad oedd safonau aml-asiantaeth, cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu. Bydd Grŵp Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu Rhanbarthol yn arwain ar hyn.

- Y wybodaeth ddiweddaraf ar yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am statws SUSR, roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i ohirio tan fis Ionawr 2023. Hefyd cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd mewn perthynas ag Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru.

- Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn perthynas â'r agenda presennol o ran Diogelu Oedolion yng Nghymru a'r ymgynghoriad presennol o ran y ddyletswydd i adrodd. Hefyd trafodwyd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin ymysg Pobl Hŷn.

- Cyflwynwyd adroddiad arolwg diweddaraf Carchar Berwyn ac roedd y Dirprwy Lywodraethwr yn bresennol i drafod y canfyddiadau ac i dynnu sylw at y gwaith sydd ar y gweill mewn ymateb i hyn.